Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN BWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

Gorchymyn Rheoli Cwn (Heb fod yn Gymwys i Dir Dynodedig (Cymru) 2007

Ystyriodd y Pwyllgor *Orchymyn Rheoli Cwn (Heb fod yn Gymwys i Dir Dynodedig (Cymru) 2007* yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y materion a ganlyn:

- pa dir fyddai'n ddarostyngedig i'r Gorchymyn?
- a fyddai'r Gorchymyn yn cynnwys cŵn sy'n baeddu tir preifat sydd ar agor i'r cyhoedd?

Cafwyd yr atebion a ganlyn gan y Gweinidog:

- byddai tir a roddwyd i'r Comisiwn Coedwigaeth a'r priffyrdd ei ddefnyddio'n cael ei eithrio rhag y Gorchymyn.
- Byddai'r Gorchymyn yn gymwys i gwn sy'n baeddu tir cyhoeddus a phreifat.

Croesawodd y Pwyllgor y Rheoliadau hyn gan argymell y dylid cymeradwyo *Gorchymyn Rheoli Cwn (Heb fod yn Gymwys i Dir Dynodedig (Cymru) 2007* heb unrhyw newidiadau.

Glyn Davies **AC**
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad